

OES DIDDORDEB GYDA CHI MEWN BOD YN FILFEDDYG?



WYTHNOS RAGFLAS

FFERMIO/MILFEDDYGAETH CYMRU



Mae'r amser wedi dod i benderfynu ynghylch gyrfa!

Bwriedir yr wythnos hon ar gyfer myfyrwyr yn y categori 16 -19 oed a all fod yn ystyried gyrfa yn y diwydiant amaethyddol. Bydd y pwyslais ar y rheiny sy'n ystyried astudio Meddygaeth Filfeddygol, er mae'n bosibl y bydd o ddi-ddordeb i fyfyrwyr eraill.

Mae Gangen Cymru o Gymdeithas Milfeddygon Prydain yn cefnogi'r wythnos hon yn llawn ac mae sawl un o'r siaradwyr yn aelodau o Gyngor y Gangen.

 **coleg**sirgâr

Yr hyn yr ydym am ei gynnig i chi:

Yn ystod eich amser gyda ni ein nod yw rhoi cyfle i chi, fel person ag uchelgais i fod yn filfeddyg, i drafod natur swydd milfeddyg fferm gyda milfeddygon a ffermwyr gweithredol. Rydym hefyd yn bwriadu rhoi cipolwg i chi ar safle milfeddyg yn y diwydiant bwyd modern.

Bydd y cwrs yn cael ei redeg gan aelodau'r Coleg Milfeddygol Brenhinol a Choleg Sir Gâr.

RVC Royal
Veterinary
College
University of London

Yr 'unig' gwrs rhagflas Milfeddygol yng Nghymru

Mae'r campws yn safle pwmpasol sydd hefyd yn gartref i fferm 211 hectar y coleg. Mae wedi'i leoli yn nyffryn ffrwythlon y Tywi, dair milltir o Landeilo a 14 milltir o Gaerfyrddin.

Nodweddion y cwrs:

- Ffocws ar fferm
- Rhagflas o'r diwydiant
- Geirda o gymorth i gael mynediad i Ysgol Filfeddygol
- Tystysgrif Presenoldeb y Coleg
- Llwybrau gyrfaol ac incwm posibl
- Eich helpu chi i benderfynu ynghylch eich gyrfa yn y dyfodol
- Cwrs Byr

Lleoliad:

Campws y Gelli Aur, Gelli Aur, Caerfyrddin,
Sir Gaerfyrddin, SA32 8NJ

☎ 01554 748578



Yr Wythnos

Yn ogystal â bod yn goleg amaethyddol, mae'r Gelli Aur yn fferm laeth fasnachol. Bydd eich wythnos yn dechrau hyn yn trafod sut mae'r fferm laeth yn gweithio, y pwysau mae hi'n ei wynebu a'r modd y mae'r milfeddyg a'r ffermwr yn cydweithio ar y fferm. Bydd staff y fferm a milfeddygon gwartheg laeth profiadol yno i'ch tywys trwy drefn weithio'r fferm ac ateb unrhyw gwestiynau, yn ogystal â'ch herio chi â syniadau mae'n bosibl nad ydych wedi'u hystyried.

Mae ffermio cig eidion a defaid yn ddau ddiwydiant ffermio pwysig yng Nghymru ac unwaith eto byddwn ni'n ymweld â ffermydd er mwyn trafod gyda staff y ffermydd a milfeddygon ynghylch sut mae eu diwydiant yn gweithio.

Mae'r diwydiant ffermio wrthi'n cynhyrchu bwyd ac mae gan filfeddygon hefyd rôl unwaith mae'r anifeiliaid wedi gadael y fferm. Byddwn ni'n ymweld â lladd-dy (unwaith y byddant wedi gorffen eu gwaith am y bore!!) ac yn sgwrsio â'r milfeddyg am ei rôl.

Yn ystod yr wythnos bydd y rheiny sy'n bresennol yn cael cyfle i drafod cyfleoedd gyrfael eraill y gall milfeddygon fod yn rhan ohonynt megis y diwydiant fferyllol, yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Labordai Milfeddygol (AHVLA) ac ati.

Bydd siaradwyr o'r Coleg Milfeddygol Brenhinol yn rhoi cyfarwyddyd i chi ynghylch y broses ymgeisio ar gyfer yr holl brifysgolion.



Amserlen Enghreifftiol

Llun	Bore Cyrraedd - Sgwrs ragarweiniol (Prif Swyddog Milfeddygol neu lywydd RCVS). Prynhawn Tro o amgylch Fferm y Gelli Aur/Godro/Ffermwyr Llaeth. Hwyr Digwyddiad cymdeithasol gyda'r staff.
Mawrth	Bore Ymweliad ffermwyr cig eidion/lletya/maeth. Prynhawn Materion milfeddygol defaid (parasitiaid, cloffni). Hwyr Clefydau pwysig yn y byd ffermio.
Mercher	Bore Cynhyrchu dofednod/cynhyrchu moch. Prynhawn Patholeg/bacterioleg. Cyfweiliadau gan fyfyrwyr. Hwyr Cymdeithasu gyda myfyrwyr milfeddygol presennol (RVC +/- ysgolion eraill).
Iau	Bore Marchnad Prynhawn Lladd-dy/ Arddangosiad gwaith cigydd. Hwyr Gyrfaedd (Cynrychiolydd fferyllol +/- diwydiannau eraill).
Gwener	Bore Ymarferol Llawdriniaeth Prynhawn Gwybodaeth am y broses ymgeisio/ diwrnod agored. Prif siaradwr. Ymadael.

Llety

Nid yw llety yn cael ei gynnwys yn cost yr wythnos. Gall y rhai sy'n mynychu'r cwrs aros ar ffermydd lleol. Pris y llety yw £35 am gwely a Brecwast. Mae cludiant i'r coleg yn gynnwysiedig yn y pris. Bydd cinio a swper yn cael ei ddarparu ar ddiwrnodau llawn ynghyd â lluniaeth.

Bwyd

Bydd cinio canol dydd a chinio hwyr yn cael eu darparu ar ddiwrnodau llawn ynghyd â lluniaeth ysgafn.



Y Staff

Darlithydd ar gyfer Coleg Brenhinol y Milfeddygon yw Neil Paton ac mae'n dysgu Meddygaeth Anifeiliaid y Fferm i fyfyrwyr israddedig. Yn ychwanegol mae'n Gyfarwyddwr Technegol Iechyd Anifeiliaid Cymru - Gwaredu BVD ac uwch Is-lywydd Cangen Cymru Cymdeithas Milfeddygon Prydain.

Enillodd Neil radd BSc mewn Patholeg Filfeddygol yn 1997.

Treuliodd dair blynedd yn yr Alban yn gweithio mewn practis cymysg cyn symud ymlaen i ddechrau gradd PhD ym Mhrifysgol Caeredin a Sefydliad Ymchwil Moredun.



John Griffiths yw Rheolwr y Ganolfan Datblygu Llaeth yn y Gelli Aur. Mae'n ymwneud â rhedeg rhaglenni ymchwil, datblygiad a hyfforddiant ar gyfer y diwydiant ffermio llaeth ar draws Cymru gyfan.



Ymgeisio

Bydd cwblhau'r wythnos gyfan yn rhoi hawl i'r rheiny sy'n bresennol gael tystysgrif yn dangos eu bod wedi mynychu'r cwrs. Yn ychwanegol, rhoddir geiradau yn dilyn y cwrs, os dymunir. Bydd y cwrs yn rhedeg yn ystod gwyliau'r Haf.

Dyddiad	Enw	Amgaeaf flaendal o £150	Amgaeaf y tâl cyfan o £450	Mae gennyf ofynion dietegol penodol (rhestrir isod).
30/07/2018				

Gwnewch eich sieciau'n daladwy i: Coleg Sir Gâr a'u dychwelyd yn yr amlen ragdal ynghyd â'ch cais neu cysylltwch ag Sarah Roberts ☎ 01554 748578 i dalu trwy Ddebyd Uniongyrchol.

Enw:			
Cyfeiriad:			
Rhif Cyswllt:	Cartref:	Symudol:	
E-bost:			

Cytundeb Rhieni

Rwyf yn cytuno bod fy mab/merch yn cymryd rhan yn y gweithgareddau a amlinellir uchod. Rwyf yn cadarnhau hyd eithaf fy ngwybodaeth nad yw fy mab/merch yn dioddef o unrhyw gyflwr meddygol a fydd yn ei rwystro/ ei rhwystro rhag cymryd rhan. Rwyf yn caniatáu i'm mab/merch deithio ar unrhyw ffurf o gludiant cyhoeddus, bws mini neu gerbyd modur a yrrir gan aelod o staff y cwrs. Rwyf yn deall nad yw'r trefnwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled, difrod neu anaf a achosir gan fod yn bresennol ar unrhyw un o'r gweithgareddau a drefnir neu yn ystod hynny, oni bai y dangosir bod y fath golled, difrod neu anaf yn ganlyniad uniongyrchol i esgeulustod y trefnwyr.

Llofnod Rhiant:

Printiwch yr Enw:

